trobwynt
Rhannu'r ffydd Gristnogol gyda'n hieuenctid

Cylchlythyr
Rhif 1

Mai 2008

Cychwyn dau grŵp newydd

Dros y gaeaf daeth 12 o bobl ifanc at ei gilydd i ddysgu sut i efengylu i'w ffrindiau. Ffrwyth hyn yw gweld cychwyn dau grŵp dan yr enw Emerge. Cynhelir un ym Mhen Llyn ar llall yn Eifionydd bob yn ail wythnos. Byddwn yn astudio'r llyfr "Cry of my Heart". Y mae'r llyfr yn canolbwyntio ar galon ysbrydol y sawl sydd am ddilyn Iesu Grist. Pob pumed wythnos bydd y ddau grŵp yn dod at ei gilydd dan yr enw Souled Out (cysylltiedig â Choleg y Bala). Byddwn ni'n cael amser i gymdeithasu, addoli a dysgu.

www.trobwynt.co.uk

Y mae gan Trobwynt wefan newydd sbon! Rydym ar hyn o bryd wrthi'n ei hadeiladu. Gobeithiwn y bydd yr ieuenctid yn lawr lwytho defnyddiau a fydd yn cynorthwyo eu cerddediad gyda Iesu Grist. Bydd hefyd yn ddefnyddiol i hysbysebu gwahanol gyfarfodydd lleol. Beth am i chi ymweld â'r wefan!

A wnewch chi weddio dros:

- Clybiau Ieuenctid Cristnogol; Botwnnog, Morfa Nefyn, Llithfaen a Chwilog.
- Cychwyn Clwb Ieuenctid Cristnogol yng Nghricieth yn mis Gorffennaf.
- Cyfarfodydd i drefnu cychwyn Clybiau Ieuenctid Cristnogol yn Y Ffôr a Nefyn.
- Undebau Cristnogol yn Glan y Môr, Botwnnog ac Eifionydd.
- Trefnu cystadleuaeth pêl-droed ar gyfer hogiau'r Clybiau Ieuenctid Cristnogol ym mis Mehefin
- Grwpiau Emerge Pen Llyn ac Eifionydd.
- Souled Out Llyn ac Eifionydd

HOPE 2008

Dros benwythnos cyntaf mis Mai aeth criw ohonom i lawr i Gaerdydd i fod yn rhan o 'Ignite Hope '08'. Gweledigaeth Hope 08 yw gweld Cristnogion yn dangos cariad Iesu trwy air a gweithred. Yn y boreau a'r hwyr cawsom gyfle i astudio'r Beibl tra yn y prynhawn roeddem yn rhan o wahanol brosiectau oedd ar hyd a lled Gaerdydd a'r Rhondda. Roedd amrywiaeth weithgareddau megis cynnal clwb gwyliau ar gyfer plant, glanhau'r strydoedd, peintio dros graffiti, hel ysbwriel, rhedeg clybiau pêl-droed, efengylu ar y strydoedd a llawer mwy.

Dyma oedd ymateb un o'r bobl ifanc,
" Roedd y penwythnos yma yn agoriad llygaid. Gwelais Dduw mewn ffordd hollol wahanol! Pan es i yn ôl i'r ysgol, sylweddolais fod y plant o'm cwmpas angen clywed am Iesu, pob un ohonynt! Roedd hi'n wych cael gweithio gyda'r clwb plant, a chael rhannu Iesu gyda nhw, ac i weld yr effaith gafodd yr holl beth ar y gwahanol gymunedau!"

Ysgol Eifionydd

Mae hi wedi bod yn wych yn ystod yr wythnosau diwethaf hyn yn Undeb Cristnogol Ysgol Eifionydd. Rydym wedi bod yn astudio 'Pwy yw Iesu'. Ar hyn o bryd rydym yn trafod beth yw ystyr rhoi ein bywydau i Iesu Grist. Dros yr wythnosau mae rhif mynychwyr y cyfarfodydd wedi cynyddu hefyd! Diolch i Dduw am hyn. Gofynnwn i chi barhau i weddio dros y bobl ifanc. A wnewch chi weddio bod Duw yn agor eu calonnau, sylweddoli pwy yw Iesu a rhoi hiraeth yn eu calonnau am Ei adnabod.

Hoffech chi gefnogi trobwynt

Cysylltwch â'r Ysgrifennydd
Tabor
Llithfaen
Pwllheli
LL53 6NL Rhif Ffôn: 01758 750202